# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 08/05/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhys Tudur (CAD) | Gruffydd Williams | Guto Williams | Bleddyn Evans | Sharon Williams |
| Sian Hughes | Arfon Hughes | Glenda Rice | Catrin Roberts | Janice Evans |
| Gwynfor Jones | Rhian Hughes-Jones (Clerc) | | | |

1. **Ymddiheuriadau**
   Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Andrew Owen.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad bersonol**
   Gruffydd Williams – Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.
   Sian Hughes - Ceisiadau Cynllunio gan ei fod yn aelod o'r pwyllgor Cynllunio.

3. **Cofnodion 10/04/2018 (er cywirdeb yn unig)**
   Wedi ei derbyn yn gywir.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   Dim

5. **Etholiadau**
   Rhys Tudur wedi ei ethol i'r gadair yn unfrydol.
   Catrin Roberts wedi ei ethol fel is gadeirydd yn unfrydol.
   Diolch i Arfon Hughes am ei waith rhagorol dros y blynyddoedd fel cadeirydd y Cyngor Tref.
   Is-bwyllgorau;

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Traethau** | Gruff Williams | Arfon Hughes | Sian Hughes | Andrew Owen | Guto Williams |
| **Llyfrgell** | Sharon Williams | Gwynfor Jones | Rhys Tudur | Alan Griffith | |
| **Llwybrau** | Gruff Williams | Sian Hughes | Arfon Hughes | Andrew Owen | Guto Williams |
| **Ariannol** | Arfon Hughes | Janice Evans | Catrin Roberts | Bleddyn Evans | Rhys Tudur |
| **Rheolau** | Gruff Williams | Rhys Tudur | Catrin Roberts | Bleddyn Evans | Arfon Hughes |
| **Mynwentydd** | Bleddyn Evans | Catrin Roberts | Arfon Hughes | | |
| **Gweithgareddau (Nadolig, Calan Gaeaf ac ati)** | Glenda Rice<br>Catrin Roberts | Bethan Williams<br>Andrew Owen | Sharon Williams | Sian Hughes | Janice Evans |

6. **Rheolau Sefydlog**
   Rheolau Sefydlog 2018-2019 wedi eu cadarnhau ac wedi eu arwyddo gan Rhys Tudur - Cadeirydd

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**7. Traethau**

Nodwyd Gruff Williams fod harbwr Nefyn yn dirywio gyda diffyg rêl ar yr ystôl i'r harbwr ei hun. Mae'r rêl ar y slip wrth Dŷ Stilts wedi rhydu ac yn beryg. Y Clerc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

Mae yna drafferth gyda chan yn baeddu ar y traeth a thocynnau o fagiau baw can yn cael eu gadael o gwmpas y lle. Mae Gruff Williams am gysylltu hefo'r swyddog priodol.

Mae angen bwrw ymlaen hefo'r trefniadau argyfer cyfarfod mis Medi hefo Cyngor Gwynedd a'r Ymddduriedolaeth Genedlaethol err hoi cynllun cadarn yn ei le.

Nodwyd bod nifer mwy o gytiau lan mor yn ymddangos ar y traeth eleni. Pwy sydd yn gyfrifol am reolir sefyllfa? Caiff osod cŵt lan mor heb ganiatâd? Clerc am gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

Mae Rhys Tudur am wneud ymholiadau hefo'r Gofrestrfa Dir er gallu gyrru llythyr i'r perchnogion yw atgoffa o'i dyletswyddau.

**8. Llwybrau**

Diweddariad gan Sian Hughes ar lwybr yr ysgol yn Morfa Nefyn – Dim datblygiad, mae Sian Hughes am fonitro'r sefyllfa

Diweddariad gan Gruffydd Williams – Mae llwybr aml ddefnydd o'r Ddol I Dan y Mynydd dros y graig i'r chwarel wedi ei orffen ac yn agored i bawb yn cynnwys hefo cadair olwyn.

Gors geirch – nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu cyfrannu er eu bod wedi cytuno i gyfrannu ar y cychwyn. Mae CNC yn mynnu ein bod yn defnyddio ymgymerwyr yn gweithio hefo CNC, mae hyn wrth gwrs yn llawer mwy costus ac amserlen. £11,000 oedd y gost gyda Chyngor Tref Nefyn yn cyfrannu £6,000.

Meinciau – Bydd angen cysylltu hefo'r tir feddiannwr i gadarnhau fod hawl i osod y fainc yn ei lle. I'r dyfodol bydd angen creu protocol i 'Meinciau' a'i fabwysiadu yn ffurfiol yn unol â chanllawiau gan Gyngor Gwynedd.

**9. Y Ddol**

Dim Diweddariad i gysoni gwybodaeth.

Nid yw'r cyngor wedi derbyn diweddariad gan y datblygwr. Rhian Hughes-Jones i ddilyn i fynnu wrth yrru neges i'r cwmni eto yn ogystal â Chyngor Gwynedd.

**10. Siop Siarad**

Diweddariad gan Arfon Hughes – Mae Arfon Hughes wedi cyfarfod hefo perchennog Siop Siarad a chytuno rhent o £60 yr wythnos (yn cynnwys dŵr a thrydan) am flwyddyn ariannol 2018 – 2019. Mae'r Cyngor Tref yn cytuno i hyn.

Ni yw ein cyllideb am y flwyddyn yn cynnwys talu rhent, ond mae'n swm derbyniol ac yn hwylus yw defnyddio. Mae'n rhoi cyfle arbennig i Gyngor Tref Nefyn defnyddio Siop Siarad ar gyfer nifer helaeth o weithgareddau.

- Mapiau'r ardal ar gael i'r cyhoedd a thwristiaid.
- Cynnal cyfarfodydd.
- Swyddfa i'r Clerc ei ddefnyddio / Storfa.
- Gellir sefydlu a hybu gweithgareddau fel 'Taith Hanesyddol' ac ati.
- Gwybodaeth Twristiaeth.
- Gweithgareddau i'r Ieuenctid. (Pobl ifanc yn gallu ymuno hefo is-bwyllgorau)

Mae'r gost dros £4000 y flwyddyn ond cytunwyd bod y manteision werth y gost. Mae arian wrth gefn yno yw defnyddio.

Mae Rhys Tudur am drefnu I Robin Jones drefnu contract hefo'r perchnogion.

Mae cyfle hefyd i fynd i gyfarfod Gwynedd Digidol ym Mhorthmadog, Bleddyn Evans a Rhian Hughes-Jones am fynychu.

**11. Cadw Cymru yn Daclus**

Diweddariad gan Andrew Owen –Wedi ei ohirio yn absenoldeb Andrew Owen

**12. Finiau – Ardal Pen Llyn**

Diweddariad gan Sian Hughes
Mae cymunedau Morfa Nefyn, Edern a Tudweiliog yn ymuno.
Nid yw hyn yn cymryd i ystyriet dai haf nac ychwaith poblogaeth oedran pleidleisio newydd 16-18.
Mae'r penderfyniad wedi ei wneud.

**13. Llyfrgell**

Diweddariad gan Sharon Williams – yn dilyn is-bwyllgor Llyfrgelloedd.
Mae contract glanhau yn ei le yn barod gyda chyngor Gwynedd. Mae'r llyfrgell yn cael ei lanhau am hanner awr bob bore cyn agor am y diwrnod. Mae'r gost o £106.72 y mis yn cynnwys nwyddau a rheoli, mae hyn yn ateb gofynion diogelwch.
Bydd Cyngor Gwynedd yn gyrru anfoneb i'r Cyngor Tref yn fisol. Mae arian wedi ei chlustnodi yn y gyllideb i hyn. Gytunwyd I gadw'r cytundeb yma yn ei le a'i werthuso at fis Mawrth 2019.
Mae'r Clerc wedi cael nifer o amcangyfrifon yswiriant i'r llyfrgell; mae'r rhain yn fwy o gost nac oedd wedi ei nodi yn y gyllideb, bydd rhaid ail edrych ar hyn i gyllideb 2019-2020. Cytunwyd ar Zurich am £297.
Bydd y llyfrgell ar gael ar ôl oriau i'r Cyngor Tref ei ddefnyddio. Bydd y Ffon a Wi-Fi yn cael ei adael ymlaen er hwyluso cyfarfodydd ac ati.
Gweler Atodiad 1 – Cofnodion Is-bwyllgor Y Llyfrgell.

**14. Mynwentydd**

Diweddariad gan Rhian Hughes-Jones
Mae biniau mynwent Morfa Nefyn angen eu gwagio.
Nid yw'r gwaith atgyweirio wedi ei ddechrau yn fynwent Nefyn, angen cysylltu i wneud yn siŵr bod y gwaith yma yn cael ei wneud cyn gynted â phosib.

**15. Cyfraniad at yr ysgolion**

Briodol i drafod cyfraniadau i ysgolion yr ardal ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyngor Tref yn defnyddio Ysgol Nefyn a Morfa Nefyn ar gyfer cyfarfodydd misol. Gan fod cynlluniau yn ei le i ddefnyddio Siop Siarad Â chynnal cyfarfodydd i'r dyfodol mae'r pwyllgor yn cytuno ei fod yn briodol i roi rhodd fel diolch i'r ysgolion.
Cynigwyd rhoi rhodd o £150 yr un i'r ysgolion.

**16. GDPR a Clirio Dofgfennau Hanesyddol**

Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Yn dilyn hyfforddiant yng Nghaernarfon yn ddiweddar mae Rhian Hughes-Jones wedi darparu tabl byr sydd yn egluro'r prif bwyntiau sydd yn bwysig i'r aelodau. Gweler Atodiad 2
Bydd yn hanfodol i'r aelodau i gyd dderbyn hyfforddiant GDPR yn y dyfodol agos.
Mae Janice Evans wedi ei ethol i gymryd rôl y Swyddog Diogelu Data a bydd Glenda Rice hefyd wrth gefn yn y swydd.
Mae angen trefnu aelodaeth hefo'r ICO a thalu ffi o £35 cyn gynted a bod modd.
Bydd Rhian Hughes-Jones yn trefnu cyfarfod hefo Janice Evans a Glenda Rice cyn gynted a bod modd I fynd trwy'r oll wybodaeth.
Bydd angen ail edrych ar clirio siop siarad cyn gynted a bod modd.
Bydd Rhian Hughes-Jones hefyd yn trefnu hyfforddiant I'r holl aelodau cyn gynted a bod modd.

17. **Lwfans Cynghorydd 2018 – 2019**
    Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Yn dilyn cyfarfod yng Nghaernarfon nodwyd nad yw aelodau o gynghorau eraill yn mynd i hawlio'r lwfans. Bydd rhaid i'r aelodau i gyd ddatgan yn swyddogol un ffordd neu'r llall.

18. **Clybiau Ieuenctid Gwynedd**
    Wedi ei ohirio at cyfarfod mis Mehefin.

19. **Yswyriant**
    Diweddariad Rhian Hughes-Jones – yn dilyn derbyn nifer o gynigion mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu aros hefo Zurich, gan ychwanegu'r Llyfrgell a gwneud contract 3 mlynedd. £1,695.70 y flwyddyn.

20. **Awdit**
    Diweddariad Rhian Hughes-Jones – Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen ac mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn ôl ac yn cytuno i wneud yr archwiliad mewnol.

**Ceisiadau Cynllunio**

**C18/0280/42/LL**
Adeiladu stablau, wyneb caled concrid a menage pob tywydd
Gelliwen, Lon Uchaf, Morfa Nefyn
**Gwrthwynebu – Mae'r bwriad yn golygu atgyweirio llwybr cyhoeddus sydd yn risg yw colli yn gyfan gwbl. Mae angen arwyddion ffens trydan yn y safle.**

**C18/0267/42/LL**
Gosod ffenestri gromen
Cae Bach, Cefn Morfa, Morfa Nefyn
**Dim Gwrthwynebiad**

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref *NEFYN* Town Council

COFNODION Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 08/05/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru -** Bwletin Ebrill 2018
2. **SLCC** - Bwletin Ebrill 2018
3. **Clerks & Councils Direct** – Ebrill 2018
4. **Local Council Update** – Ebrill 2018
5. **Un Llais Cymru -** Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref
6. **Swyddfa Archwilio Cymru** - Pwysigrwydd Archwiliad Allanol - Neges gan Deryck Evans
7. **Age Cymru a Age Alliance Wales** – nifer o ddigwyddiadau o diddordeb.
8. **Age Cymru** - Grantiau unigedd ac unigrwydd
9. **Un Llais Cymru** - Gwobrau Arfer Arloesol Cenedlaethol 2018 - Enillwyr, Cynghorau Cymeradwy Iawn a Chymeradwy
10. **Sion Gwilym** - Mapio'ch Cyngor
11. **Nemisis Fireworks –** Gwasanaethau sydd ar gael.
12. **Cyngor Gwynedd -** Adroddiad Archwilio Llifogydd
13. **LLywodraeth Cymru** - Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018-19
14. **Llywodraeth Cymru** - Y Newyddion Diweddaraf am yr Amgylchedd Hanesyddol 7 - Ymgynghoriad wedi'i lansio
15. **Cyngor Addysg Mewn Ddinesyddiaeth Byd -** Cyfle i bobl ifanc
16. **UK Debt Management Office –** Cyngor Tref Nefyn, Yn Weddill 31/03/2018
17. **J G Jones –** Rhestr Prisiau diweddaraf.
18. **HM Revenue & Customs –** Newid i trefn hawlio TAW
19. **Un Llais Cymru** – Enwebu cynghorydd i gynrychioli.
20. **Bacstal** – Gwybodaeth cyflog cenedlaethol
21. **Pwyllgor Tafarn yr Heliwr** -Llythyr yn nodi; **D**efnyddio arian cyfatebol y Cyngor Tref gyda grant CCG yn lle'r cynnig gwreiddiol efo AHNE
22. **Gwarchod Iechyd Gogledd Cymru -** Cadeirydd Newydd I'r corff
23. **Swyddfa archwilio cymru -** Darlun O Ofal Sylfaenol Yng Nghymru
24. **Gwynedd Ddigidol:** Mynediad cyhoeddus i Wifi mewn cymunedau gwledig
25. **Un Llais Cymru** - HYFFORDDIANT MIS MAI
26. **Un Llais Cymru** - angen mwy o gymorth ar bobl sy'nwynebu rhwystrau iaith a chyfathrebu i'w helpu i gael mynediad i wasanaethaucyhoeddus
27. **Calor Rural** - Community Fund
28. **Adolygiad CTC** - “galw heibio" genedlaethol ar draws Cymru
29. **Llywodraeth Cymru** - Ymgynghoriad Newidiadau i ganiatáu Seilwaith
30. **Un Llais Cymru** - Ymateb i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Cyngor, Nos Fawrt 08/05/2018 Ganolfan Edern am 7yh

**<u>Taliadau wedi cael ei cymeradwyo</u>**

| | |
|---|---|
| **Cyflog y clerc –** | |
| Chwefror £726.93 | **£817.57** |
| **Rhian Hughes-Jones** – Adaliad bin mynwent Nefyn | **£136.06** |
| **PAYE -** HM Revenue & Customs | |
| **BACSTAL –** Gwasanaeth Cyflogau | **£13.76** |
| **Clif Hughes** – | **£105.60** |
| Gwaith Llwybrau Ychwanegol | |
| **D M Parry** – Gwaith ar y mynwentydd | **£251.08** |
| **J G Jones -** Torrwr Beddi | **£833.00** |
| 16/04/2018 - £375.00 | |
| 16/04/2018 - £425.00 | **£800.00** |
| **O G Plymar** – Gwaith brys yn mynwent nefyn | **£47.00** |
| **Local Council Updates** - adnewyddu tanysgrifiad | **£75.00** |
| **BIG –** | |
| Anfonebau Ashley Hughes | |
| Gareth Williams | **£900.00** |

**<u>Taliadau wedi eu derbyn</u>**

| | |
|---|---|
| Cyfraniad llwybrau Cyngor Gwynedd | **£2757.62** |
| Presept 2018-19 | **£30279.60** |

**<u>Ceisiadau am gyfraniad</u>**

1. **Y Groes Goch Brydeinig – Cais Blynyddol am arian i gefnogi Gwasanaethau Lleol**
2. **Grŵp mynediad Dwyfor**
3. **Marie Curie – Gwasanaeth Nyrsio**
4. **Theatr Bara Caws – Gymorthdal I flwyddyn 2017-18**
5. **Eisteddfod yr Urdd – Cyfraniad tuag at Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed 2018**
6. **Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - Cefnogi Staff, 150 Hamper I staff a fydd yn gweithio dros y nadolig i ddiolch a Gwobrau i staff.**
7. **Eisteddfod Gerddorol Ryngwadol Llangollen**
8. **Dawns i bawb – Dawns mewn ysgolion, cartrefi henoed a Llyfrgelloedd.**
9. **Clwb Nofio PBP – Porthmadog Blaenau Ffestiniog a Pwllheli.**
10. **Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog a`r Fro 2018**
11. **Cylch Meithrin Nefyn – Cyfraniad at adnoddau.**
12. **Cymdeithas Pared Dewi Sant Pwllheli.**
13. **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Apél Ambiwlans Awyr Cymru i Blant**
14. **Canolfan Therapi Plant Cymru**

**Materion yw rhoi ar agenda Nesaf:** Clybiau Ieuenctid Gwynedd

Siop Siarad

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**ATODIAD 1**

**Cofnodion Is bwyllgor Llyfrgell - Llyfrgell Nefyn 7yh 17/04/2018**

Presenol - Rhys Tudur Jones, Gwynfor Jones, Sharon Williams, Sian Heulwen Roberts (Adran Stadau Cyngor Gwynedd) a Nia Gruffydd(Adran Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd) Arfon Hughes am gyfnod byr i gynnig arweiniad fel Cyn Cadeirydd.

Ymddiheuriadau - Mared Williams (Llyfrgellydd), Rhian Hughes-Jones (Clerc).

Trafodwyd anghenion gweinyddol y llyfrgell a chyfrifoldebau Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref.
Rhoddwyd enw, cyfeiriad a rhif ffon cyswllt Rhian Hughes-Jones a Sharon Williams i Nia Gruffydd a Sian Roberts fel deiliaid goriadau llyfrgell a phwynt cyswllt.

Bydd Cytundeb Gwasanaeth Llyfrgell wedi ei ddiweddaru yn cael ei yrru i'r twrna Mr Robyn Jones yn y dyfodol agos at ein sylw.

Yswyriant: Sian Heulwen Roberts am gadarnhau'r manylion a gyflwynwyd gan Nia Gruffydd yn ei hebost diweddar - dyddiad adeiladu, cost ailadeiladu adeilad, cost cynnwys yr adeilad. Cysylltu gyda'r Clerc.

Sian Heulwen Roberts wedi gaddo gyrru rhestr gryno o gyfrifoldebau'r Cyngor Tref gyda dyddiadau penodol i ymgymeryd a phob cyfrifoldeb. Cysylltu drwy ebost i'r Clerc.

Nia Gruffydd yn tynnu ein sylw at y "Bocs Glas - Dogfennau Iechyd a Diogelwch" sy'n cael ei gadw dan ddesg y Llyfrgellydd. Mared, os yn fodlon, i barhau gyda'r swyddogaeth o oruwchwylio'r agweddau iechyd a diogelwch yn ogystal a chofnodi. (Profi rheolaidd fydd angen llofnod Mared -Larwm Tan, Profi Goleuadau Argyfwng, Rhedeg Tapiau Dwr, Gwirio fod drysau argyfwng yn glir, Diffoddwyr Tan). Cyfrifoldeb y Cyngor Tref fydd sicrhau fod hynny'n digwydd.

Sian Heulwen Roberts wedi cymryd darlleniad meter trydan terfynol. Bydd y biliau trydan yn cael eu gyrru 'mlaen gan Cyngor Gwynedd i Glerc y Cyngor Tref. Bydd y Cyngor Tref yn gyfrifol am y biliau dwr o'r 1ar o Ebrill. Bydd y bil hwn hefyd yn cael ei yrru gan Cyngor Gwynedd i'r Clerc drwy ebost.

Mae costau Wi-fi y llyfrgell yn cael ei dalu gan Cyngor Gwynedd. Mae modd cael wi-fi tu allan i oriau'r llyfrgell os yw'r Cyngor Tref yn dymuno. Mater o gysylltu gyda Nia Hughes a gwneud gorchymyn i'w ddad-gloi.

Bydd system VOIP (Voice over internet protocol) yn cael ei osod maes o law yn lle'r system ffon bresenol.

Dim trefniadau gwastraff nac ailgylchu presenol.

Glanhau - Cytundeb glanhau yn dod i ben ymhen yr wythnos. Daeth cynnig gerbron i barhau gyda'r un telerau. Bu peth trafod ar y mater hwn gyda'r aelodau Cyngor Tref yn ffafrio parhau yn hytrach na chanfod glanhawr/aig newydd. Bydd y mater yn cael ei drafod yn y pwyllgor llawn ar yr 8ed o Fai. Nia Hughes am ymestyn cyflogaeth y ddynes sy'n glanhau tan yr 11eg o fai er mwyn rhoi cyfle i ni ddod i benderfyniad.

Glaswellt - Bydd angen i'r Cyngor Tref drefnu fod rhywun yn torri'r glaswellt o amgylch y goeden.

Angen rhoi y costau uchod ar Agenda Is Bwyllgor Arianol Mis Rhagfyr/Ionawr.

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

**ATODIAD 2**

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol - GDPR

| | | |
|---|---|---|
| 1 | Daw i rym **25/05/2018**<br>Rhaid o leiaf dangos ymdrech i gydymffurfio gyda'r Rheoliad. | Pawb |
| 2 | **Effeithio pawb sydd yn delio hefo data personol** (Unrhyw wybodaeth lle mae modd adnabod unigolyn)<br>**Perthnasol i'r holl wybodaeth bersonol** (e.e. papur, electronig, e-bost, ffilm) | Pawb |
| 3 | **Rheolau mwy cadarn ac angen profi cydymffurfiaeth** – Mae mwy o hawliau gan yr ICO – ffein fyny at £18m neu 4% o drosiant | Pawb |
| 4 | **Nid ywr Clerc yn gallu bod yn Swyddog Diogelu Data.**<br>Bydd y swyddog yn gyfrifol am wybodaeth personol y Clerc. | |
| 5 | **Data Controller – Swyddog Diogelu Data**<br>Gyfrifol am y data<br>• Cynghori'r Sefydliad ar ei gyfrifoldebau i gydymffurfio ar GDPR<br>• Monitro cydymffurfiaeth gyda'r GDPR<br>• Pwynt cyswllt ar gyfer asiantaethau allanol mewn perthynas a Diogelu Data<br><br>**Data Processor - Clerc**<br>Unrhyw un sydd yn defnyddio'r data | Swyddog Diogelu Data |
| | **Rhaid cael cytundeb clir rhwng y ddau** | Clerc |
| 6 | **Dim ond ar gyfer ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon** y dylid cael gafael ar yr wybodaeth ac ni ddylid ei phrosesu ymhellach mewn unrhyw ffordd nad yw'n cyd-fynd â'r diben neu'r dibenion hynny | Pawb |
| 7 | **Rhaid cadw'r wybodaeth dan glo.**<br>Rhaid cloi swyddfa'r Clerc | Clerc |
| 8 | **Anghyfreithlon i gadw gwybodaeth mwy na'r amser priodol.**<br>Rhaid gwaredu hen wybodaeth cyn gynted a bod modd. | Pawb |
| 9 | **Paratoi at y GDPR**<br>• Cofrestru gyda'r ICO a thalu ffi (£35)<br>• Cofrestr Asedau – beth, sut, lle, trefniadau rhannu a diogelwch (Angen gwneud cofrestr gynhwysfawr)<br>• Hunan asesiad / awdit gwybodaeth – adnabod risgiau a bylchau<br>• Cynllun gweithredu<br>• Trefniadau diogelwch cadarn<br>• Polisïau addas (SOCC gydag enghreifftiau) | Clerc |


Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651

| | | |
|---|---|---|
| | • Hyfforddi staff (Gall y Clerc darparu'r hyfforddiant)<br>• Datganiadau Preifatrwydd – Sut yn delio gyda gwybodaeth pobl (ar waelod llythyrau ac ebyst…) | |

Clerc: Rhian Hughes-Jones
Craig y Mor, Ffordd Dewi Sant, Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6EA.
• Symudol: 07748 906 651 • Ebost: clercctnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes • 07967 556651